

# Ymgynghoriad ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau

Rhagfyr 2016





Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **[communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org)** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

## Cynnwys

Ynglŷn â'r CFFC.....	5
Trosolwg .....	6
Y broses ymgynghori .....	8
Rhan 1: Rhagymadrodd.....	9
Rhan 3: Y canllaw diwygiedig ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau wrth ymarfer..	12
Wrth ymarfer: canllaw ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau .....	14
Sut y byddwn yn defnyddio eich ymatebion .....	22
Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	26
Monitro cydraddoldeb .....	29
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu .....	31

## Ynglŷn â'r CFfC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Ein gwaith yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau o'r cyhoedd drwy gynnal safonau ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu bodloni drwy gydol eu gyrfa
- ymchwilio pryderon nad yw gweithwyr proffesiynol fferyllol yn bodloni ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- cynnal arolygiadau ar fferyllfeydd er mwyn gwirio eu bod yn bodloni ein safonau

## Trosolwg

Mae gan gleifion a'r cyhoedd yr hawl i dderbyn gofal diogel ac effeithiol gan weithwyr fferyllol proffesiynol. Fel y rheoleiddiwr, rydym wedi ymrwymo i reoleiddio mewn modd sy'n cefnogi ac yn galluogi hyn i ddigwydd.

Mae hyn yn cynnwys gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol) eu bodloni trwy gydol eu gyrfaoedd, a'i gwneud hi'n glir i weithwyr fferyllol proffesiynol bod yn rhaid iddynt gadw at y deddfau perthnasol. Mae'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol ('y safonau') yn adeiladu ar, ac yn adlewyrchu ein cred mai agweddau ac ymddygiadau gweithwyr fferyllol proffesiynol yn eu gwaith o ddydd i ddydd sy'n gwneud y cyfraniadau mwyaf sylweddol i ddiogelwch cleifion ac ansawdd gofal.

Yn ddiweddar gwnaethom ymgynghori ar ein safonau newydd, a fydd yn dod i rym ar 1 Mai 2017. Dywed safon 1 bod 'yn rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal wedi'i ganoli ar y person' ac mae'n rhoi enghreifftiau o sut y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol gymhwyso'r safon.

Nid ydym yn credu bod yr enghreifftiau a roesom yn yr ymgynghoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gydnaws â gofal wedi'i ganoli ar y person nac yn rhoi digon o arweiniad ar faterion sensitif ynglŷn â chrefydd, gwerthoedd personol a chredoau. Rydym nawr yn ymgynghori ar newid arfaethedig i un o'r enghreifftiau er mwyn sicrhau bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau na effeithir ar ofal wedi'i ganoli ar y person gan eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau.


Bydd y cynigion yn newid y disgwyliadau a roddir ar weithwyr fferyllol proffesiynol pan y gallai eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau, mewn rhai amgylchiadau, effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau. Maent yn symud y cydbwysedd o blaid anghenion a hawliau y person sydd yn eu gofal. Er enghraifft, o dan y cynigion newydd, efallai na fydd atgyfeiriad i ddarparwr arall yn ddewis cywir, nac yn ddigon, i sicrhau nad yw gofal wedi'i ganoli ar y person yn cael ei gyfaddawdu. Credwn y bydd y newid hwn yn adlewyrchu'n well broffesiynoldeb wedi'i ganoli ar y person.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar ganllaw newydd ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau wrth ymarfer ('y canllaw'). Bwriedir i hyn adlewyrchu'r ystod eang o sefyllfaoedd pan y gallai crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau gweithwyr fferyllol proffesiynol effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau mewn rhai amgylchiadau. Mae'n rhoi gwybodaeth ymarferol er mwyn eu cynorthwyo i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi gofal y person yn gyntaf. Mae'r canllaw hefyd yn cydnabod rôl bwysig cyflogwyr mewn cefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r tîm fferyllol ehangach i greu a chynnal amgylchedd wedi'i ganoli ar y person.

Mae tair adran i'r ymgynghoriad hwn:

Rhan 1: Rhagymadrodd: Mae hwn yn egluro beth yr ydym wedi ei ystyried wrth ddatblygu'r geiriad arfaethedig yn yr enghraifft o dan safon 1 a'n canllaw cefnogi; ac mae'n egluro pam.

Rhan 2: Yr enghraifft ddiwygiedig o dan safon 1: Dywed hyn beth yr ydym yn newid yn yr enghraifft o dan safon 1.



Rhan 3: Y canllaw diwygiedig ar grefydd,  
gwerthoedd personol a chredoau: Yma ceir y  
canllaw diwygiedig, ac mae'n dweud beth yr  
ydym yn ei newid a beth mae hyn yn ei olygu'n  
ymarferol.

## Y broses ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad am 12 wythnos a bydd yn cau ar **7 Mawrth 2017**. Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at ystod o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, yn cynnwys cyrff cynrychioliadol proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, cyrff cynrychioli cleifion ac eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn.

Gobeithiwn y byddwch yn darllen yr ymgynghoriad hwn ac yn ystyried ymateb. Mae rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon i'w cael ar ein gwefan yn **[www.pharmacyregulation.org/beliefsconsultation](http://www.pharmacyregulation.org/beliefsconsultation)** neu gallwch gysylltu â ni os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

### Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gennym. Bydd ein cyngor llywodraethu yn derbyn y dadansoddiad yn ystod gwanwyn 2017, a bydd yn rhoi ystyriaeth i'r ymatebion wrth ystyried y newidiadau arfaethedig yr ydym am eu gwneud i'r enghraifft o dan safon 1 y safonau a'n canllaw diwygiedig arfaethedig.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed. Gallwch weld hyn ar ein gwefan **[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)**

### Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallwch lenwi'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i **[www.pharmacyregulation.org/beliefsconsultation](http://www.pharmacyregulation.org/beliefsconsultation)** a llenwi fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn llenwi'r holiadur yn y ddogfen hon, anfonwch ef at:

**[consultations@pharmacyregulation.org](mailto:consultations@pharmacyregulation.org)**  
gyda'r pwnc 'Ymgynghoriad ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau'

neu ei bostio atom yn:

**Religion, personal values and beliefs  
consultation response  
Standards Team  
General Pharmaceutical Council  
25 Canada Square  
London E14 5LQ**

### Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori, anfonwch hwy at:

**[feedback@pharmacyregulation.org](mailto:feedback@pharmacyregulation.org)**

neu postiwch hwy atom yn:

**Governance Team  
General Pharmaceutical Council  
25 Canada Square  
London E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.





## Rhan 1: Rhagymadrodd

Mae pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cyfrannu at ddarparu gwell iechyd, diogelwch a lles pobl. Mae proffesiynoldeb ac ymarfer diogel ac effeithiol yn ganolog i rôl y gweithiwr fferyllol proffesiynol. Mae ymddygiadau ac agweddau gweithwyr fferyllol proffesiynol hefyd yn bwysig mewn darparu profiadau a chanlyniadau o ansawdd uchel i bobl pan fyddant yn gofyn am gyngor, gofal a gwasanaethau fferyllol.

Gwyddom fod pobl yn disgwyl cael gwasanaethau penodol gan fferyllfeydd cofrestredig pan fyddant eu hangen. Rhaid i bob person sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllfa fod â hyder y bydd yn derbyn gofal o ansawdd uchel. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau gweithiwr fferyllol proffesiynol, rydym eisiau gwneud yn siŵr y gall pobl gael mynediad at y cyngor, y gofal a'r gwasanaethau y maent eu hangen gan fferyllfa, pan fyddant eu hangen.

Wrth ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r fframwaith cyfreithiol perthnasol o hawliau dynol a chyfraith cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ystyried cyfrifoldebau cyfreithiol gweithwyr fferyllol proffesiynol a chyflogwyr, yn ogystal â'n cyfrifoldebau ni ein hunain i'r rheini yr ydym yn eu rheoleiddio.

Mae hwn yn faes cymhleth ac anodd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol gyda chyfraith achos arwyddocaol sy'n datblygu. Nid gwaith ein safonau na'n canllaw cefnogi yw amlinellu'r gyfraith mewn manylder na rhoi cyngor cyfreithiol. Golyga hyn bod angen i weithwyr

fferyllol proffesiynol a chyflogwyr ddeall sut mae'r gyfraith yn berthnasol iddynt hwy ac i gael cyngor cyfreithiol pan fyddant ei angen.

Rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- ein polisi o hyrwyddo gofal wedi'i ganoli ar y person ac un trugarog, ac
- yr hyn a glywsom yn ystod ein hymgyngoriad ar y safonau, a oedd yn cynnwys barn gweithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr, defnyddwyr gwasanaeth fferyllfa, grwpiau cynrychioli ac eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn

## Rhan 2: Yr enghraifft ddiwygiedig o dan safon 1

### Beth ydym ni'n ei newid

Yn ein hymgyngoriad ar y safonau, dywedom:

#### Safon 1

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal wedi'i ganoli ar y person

#### Cymhwysu'r safon

Mae pob person yn unigolyn gyda'i werthoedd, anghenion a'i bryderon ei hun. Darperir gofal wedi'i ganoli ar y person pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn deall beth sy'n bwysig i'r unigolyn ac yna addasu'r gofal i ddiwallu ei anghenion - gan wneud gofal y person yn flaenoriaeth gyntaf iddynt. Gall pob gweithiwr fferyllol proffesiynol fod yn berson ganolog, boed eu bod yn ddarparu gofal yn uniongyrchol ai peidio, drwy feddwl am yr effaith y mae eu penderfyniadau yn ei gael ar bobl. Mae nifer o ffyrdd i fodloni'r safon hwn, ac isod ceir enghreifftiau o'r agweddau a'r ymddygiadau a ddisgwylir.

Bydd pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- Cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain ond ddim yn eu gwthio ar bobl eraill
- Dweud wrth weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol, cyflogwyr a phobl eraill os yw eu gwerthoedd neu gredoau eu hunain yn eu hatal rhag ddarparu gofal, ac atgyfeirio pobl at ddarparu'r eraill

Derbyniasom ymatebion ysgrifenedig gan sefydliadau, unigolion ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau fferyllol a chleifion, sefydliadau addysgol, gweithwyr fferyllol proffesiynol, myfyrwyr, rhai dan hyfforddiant cyn-cofrestru a rhanddeiliaid eraill. Hefyd gwnaethom gymryd rhan mewn 35 o ddigwyddiadau, gan gwrdd â sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd er mwyn clywed eu barn am yr ymgyngoriad.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i arolwg yr ymgyngoriad (90%) yn cytuno gyda'r dull yr oeddem yn ei gynnig. Croesawodd rhai o'r sefydliadau fferyllol y dull gan ei fod yn cadarnhau ymarferol presennol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r bobl neu'r sefydliadau a gynigodd sylwadau yn yr adran hon yn teimlo na ddylai gweithwyr fferyllol proffesiynol allu gwrthod gwasanaethau ar sail eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau, gan y byddai'n mynd yn groes i'r egwyddor gofal wedi'i ganoli ar y person. Mynegwyd y farn hon hefyd yn y digwyddiadau y gwnaethom eu cynnal er mwyn cael barn pobl a oedd yn defnyddio gwasanaethau fferyllfa.

#### Geiriad diwygiedig

Ar ôl ystyried yr adborth o'r ymgyngoriad, yr hyn a ddywed y gyfraith a'n dadansoddiad ein hunain, rydym wedi penderfynu - yn amodol ar yr ymgyngoriad hwn - bod yr enghreifftiau a roddwyd gennym o dan safon 1 yn y safonau ar



gyfer ymgynghoriad gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gydnaws â gofal wedi'i ganoli ar y person.

diwygiedig (a drafodir yn fanylach isod) yn rhoi cyngor ymarferol ar y pwynt hwn.

Rydym yn argymhell y bydd geiriad yr enghreifftiau o dan safon 1, ynglŷn â chrefydd, gwerthoedd personol a chredoau, yn dweud:

- Cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain ond ddim yn eu gwthio ar bobl eraill [enghraifft heb ei newid]
- Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau na chyfaddawdir gofal wedi'i ganoli ar y person oherwydd gwerthoedd personol a chredoau [enghraifft wedi'i diwygio]

Bydd y cynigion hyn yn newid y disgwyliadau a roddir ar weithwyr fferyllol proffesiynol pan allai eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau - mewn rhai amgylchiadau - effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau. Byddant yn symud y cydbwysedd o blaid y person sydd yn eu gofal.

Rydym yn ymgynghori i wneud yn siŵr fod gan bawb y cyfle i gynnig sylwadau am y cynigion hyn.

Rydym hefyd am amlygu, o dan y cynigion newydd, efallai na fydd atgyfeiriad i ddarparwr gwasanaeth arall yn ddewis cywir, nac yn ddigon, i sicrhau na chyfaddawdir gofal wedi'i ganoli ar y person. Mae hwn yn newid sylweddol o'r sefyllfa bresennol ac mae'n hollbwysig ein bod yn clywed gan y cyhoedd a'r proffesiwn ynglŷn â hyn. Bydd ein canllaw

## Rhan 3: Y canllaw diwygiedig ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau wrth ymarfer

### Beth ydym yn ei newid

Mae ein canllaw presennol ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yr effeithir arnynt gan grefydd a chredoau moesol yn cefnogi ein safonau ymddygiad, moesegau a pherfformiad, ac maent wedi bod mewn grym ers 2010.

Ar ôl ein hymgyngoriad ar y safonau roeddem yn teimlo y byddai dull sydd wedi'i deilwra'n fwy yn rhoi ystyriaeth i hawliau'r unigolion sy'n gofyn am wasanaethau a hawliau gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Amlygodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar y safonau yr ystod eang o sefyllfaoedd sy'n effeithio ar bobl yn gofyn am, a gweithwyr proffesiynol yn darparu, gwasanaethau fferyllol a gofal. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, triniaethau hormonaidd a gwasanaethau ffrwythlondeb ac atal cenhedlu. Dysgom hefyd gan ein hymgyngoriad bod atgyfeirio pobl at ddarparwyr eraill yn creu rhwystr ychwanegol i bobl yn gallu cyrchu gwasanaethau fferylliaeth pan fyddant eu hangen.

Mae ein canllaw diwygiedig yn rhoi mwy o wybodaeth ar yr ymddygiadau a ddisgwylir gan weithwyr fferyllol proffesiynol wrth gymhwyso'r safonau. Mae'n cynnwys yr ystodau eang o wasanaethau fferyllol y mae pobl yn eu disgwyl, a'r sefyllfaoedd y gallai gweithwyr fferyllol proffesiynol ganfod eu hunain ynddynt.

Bydd y canllaw yn ei gwneud hi'n glir:

- bod yn rhaid i bob person sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol gael hyder y byddant yn derbyn gofal o ansawdd uchel, ac
- na ddylai gweithwyr fferyllol proffesiynol wahaniaethau yn erbyn unrhyw un sydd yn eu gofal

Yn fyr, ni ddylai gweithwyr fferyllol proffesiynol roi eu hunain mewn safle lle byddai gwrthod darparu gwasanaethau yn:

- arwain at berson ddim yn derbyn y gofal neu'r cyngor sydd ei angen arno ef neu hi, neu'n
- torri hawliau dynol neu ddeddfwriaeth cydraddoldeb

Er bod y canllaw wedi ei fwriadu ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol, mae hefyd yn cydnabod y rôl bwysig mae cyflogwyr yn ei chwarae mewn creu amgylchedd wedi'i ganoli ar y person.

Yn olaf, mae'r canllaw'n cydnabod yr angen i weithwyr fferyllol proffesiynol a chyflogwyr fod yn gyfarwydd â'r gyfraith fel y mae'n berthnasol iddynt hwy, a chael cymorth cyfreithiol pan fyddant ei angen.



## Beth mae hyn yn ei olygu wrth ymarfer

Mae'r newid hwn yn sut y mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn bodloni'r safonau yn golygu y dylent ystyried:

- anghenion unigol y person ym mhob achos
- sut i ddiogelu a pharchu urddas person
- sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wneud yn siŵr bod y person yn derbyn y gofal neu'r cyngor sydd ei angen arno, ar yr adeg pan fydd ei angen
- materion sy'n berthnasol i lle maent yn gweithio ac a allant ddarparu'r ystod eang o wasanaethau fferyllol sydd eu hangen ar bobl, ac
- a yw atgyfeiriad yn ddewis priodol yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau unigol y person sydd yn eu gofal

Darllenwch y canllaw yn yr adran nesaf i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i gymhwyso'r safonau.

Mae'r adran hon yn dangos testun y canllaw arfaethedig

# Wrth ymarfer: canllaw ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau

## 1. Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol ('y safonau') yn berthnasol i bob fferylllydd a thechnegydd fferyllol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad pellach ar yr ymddygiadau sy'n ddisgwyliedig gan weithwyr fferyllol proffesiynol wrth gymhwyso safon 1, pan allai eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau effeithio ar eu gallu i ddarparu rhai gwasanaethau fferyllol. Mae'r canllaw, y dylech ei ddarllen ynghyd â'r safonau llawn, yn rhoi gwybodaeth ymarferol er mwyn cynorthwyo gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol drwy broffesiynoldeb wedi'i ganoli ar y person.

Dywed safon 1:

### Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal wedi'i ganoli ar y person

Cymhwyso'r safon

Mae pob person yn unigolyn gyda'i werthoedd, anghenion a'i bryderon ei hun. Darperir gofal wedi'i ganoli ar y person pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn deall beth sy'n bwysig i'r unigolyn ac yna addasu'r gofal i ddiwallu ei anghenion - gan wneud gofal y person yn flaenoriaeth gyntaf iddynt. Gall pob gweithiwr fferyllol proffesiynol fod yn berson ganolog, boed eu bod yn darparu gofal yn uniongyrchol ai peidio, drwy feddwl am yr effaith y mae eu penderfyniadau yn ei gael ar bobl. Mae nifer o ffyrdd i fodloni'r safon hwn, ac isod ceir enghreifftiau o'r agweddau a'r ymddygiadau a ddisgwyllir.

Bydd pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

....

- cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain ond ddim yn eu gwthio ar bobl eraill
- Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau na chyfaddawdir gofal wedi'i ganoli ar y person oherwydd gwerthoedd personol a chredoau.

Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn bersonol atebol am fodloni'r safonau a rhaid iddynt allu cyfiawnhau'r penderfyniadau y byddant yn eu gwneud. Rhaid iddynt ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth gymhwyso'r canllaw hwn wrth ymarfer.

Bwriedir i'r canllaw hwn gynorthwyo gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol, boed hwy'n gweithio mewn lleoliad gofal iechyd (megis ysbyty, llety diogel, cartref gofal, gofal sylfaenol neu leoliad fferyllfa gymunedol), lleoliad arall, neu'n darparu gwasanaethau yn bersonol neu ar-lein. Er bod y canllaw wedi'i fwriadu ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol, a fferyllwyr cyfrifol ac arolygol, mae hefyd yn cydnabod y rôl bwysig mae cyflogwyr yn ei chwarae mewn creu amgylchedd wedi'i ganoli ar y person.

## Y fframwaith cyfreithiol

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol weithio o fewn fframwaith cyfreithiol hawliau dynol, cydraddoldeb a chyfraith cyflogaeth. Er enghraifft, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd 'nodweddion gwarchoddedig'. Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas neu bartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw a
- cyfeiriadedd rhywiol

Rydym yn cydnabod bod gan yr holl nodweddion gwarchoddedig statws cyfartal. Mae'r canllaw hwn yn delio â chrefydd a chred yn ogystal â gwerthoedd personol, gan y gall y rhain gael effaith benodol ar benderfyniadau a wneir gan weithwyr proffesiynol wrth ymarfer. Fodd bynnag, o fewn cyfraith cydraddoldeb, mae crefydd yn golygu unrhyw grefydd, gan gynnwys diffyg crefydd. Golyga cred unrhyw gred grefyddol neu athronyddol, ac mae'n cynnwys diffyg cred.

Mae hwn yn faes cymhleth ac anodd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol gyda chyfraith achos arwyddocaol sy'n datblygu. Bwriedir i'r canllaw hwn:

- adlewyrchu'r ystod eang o sefyllfaoedd pan allai crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau gweithiwr fferyllol proffesiynol ei atal rhag darparu rhai gwasanaethau, ac
- amlinellu'r pwyntiau allweddol i'w hystyried er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi gofal y person yn gyntaf

Fodd bynnag, ni all y canllaw gwmpasu pob sefyllfa wrth ymarfer ac nid yw'n rhoi cyngor cyfreithiol ar faterion cysylltiedig â chydraddoldeb.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddod yn gyfarwydd â'r gyfraith fel y mae'n gymwys iddynt hwy, a chael cyngor cyfreithiol neu gyngor proffesiynol arall pan fyddant ei angen. Dylent hefyd fod â'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r gyfraith a allai effeithio arnynt hwy. Hefyd, mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ystyried cyfrifoldebau contractiol eu cyflogwr, yn cynnwys unrhyw rai yn Nhelerau Gwasanaeth y GIG.



### 2. Cymhwyso'r safonau wrth ymarfer

Mae fferyllfeydd yn darparu cefnogaeth a gwasanaethau i ystod eang o bobl. Efallai y gofynnir i weithiwr fferyllol proffesiynol ddarparu gwasanaethau penodol sydd ddim yn unol â'u crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau. Gallai'r rhain fod, er enghraifft, yn wasanaethau'n ymwneud â therapïau hormonaidd, meddyginiaethau ffrwythlondeb, atal cenhedlu, gwasanaethau camddefnydd sylweddau, gwasanaethau iechyd rhywiol a gwasanaethau iechyd meddwl a lles, yn cynnwys:

- atal cenhedlu
- meddyginiaethau ffrwythlondeb
- therapïau hormonaidd
- iechyd meddwl a lles
- gwasanaethau camddefnydd sylweddau
- gwasanaethau iechyd rhywiol

Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ystyried anghenion unigol y person ym mhob achos. Dylent ddefnyddio eu barn broffesiynol er mwyn gwneud yn siŵr bod y person yn derbyn y gofal neu'r cyngor sydd ei angen arno, pan fydd eu hangen. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ystyried unrhyw derfynau amser neu rwystrau eraill i gyrchu meddyginiaethau neu wasanaethau eraill. Ni ddylai penderfyniadau gweithwyr proffesiynol fferyllfa gyfaddawdu iechyd, diogelwch neu les y person. Dylent wneud trefniadau sy'n briodol i anghenion ac amgylchiadau'r person, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn derbyn y gofal sydd ei angen arno.

Cyfrifoldeb gweithwyr fferyllol proffesiynol yw gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg a gydag urddas a thrugaredd, bob amser. Yn gryno, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol wneud yn siŵr:

- bod pobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt fel blaenoriaeth, pan fyddant ei angen
- y darperir yr holl wybodaeth berthnasol i bobl i'w cynorthwyo i gyrchu'r gofal sydd ei angen arnynt, a
- bod pobl yn cael eu trin fel unigolion, yn deg a gyda pharch

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd crefydd, gwerthoedd personol a chredoau gweithiwr fferyllol proffesiynol, rydym eisiau sicrhau y gall pobl gyrchu'r cyngor, gofal a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan weithiwr fferyllol proffesiynol ym mha bynnag leoliad, a phan fyddant eu hangen.



### 3. Gweithwyr fferyllol proffesiynol

Isod ceir rhai pwyntiau allweddol y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol feddwl amdanynt er mwyn gwneud yn siŵr nad yw crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau (naill ai eu rhai eu hunain neu rai pobl eraill) yn cyfaddawdu gofal:

#### a. Lleoliad gwaith ac amrediad y gwasanaethau

Ni ddylai gweithiwr fferyllol proffesiynol yn fwriadol roi ei hun mewn sefyllfa lle na all person dderbyn y gofal neu'r cyngor sydd ei angen arno ef neu hi. Os yw mewn sefyllfa lle ei bod yn aneglur beth ddylid ei wneud, dylai ystyried anghenion ac amgylchiadau'r person. Dylai'r gweithiwr fferyllol proffesiynol ddefnyddio ei farn broffesiynol i wneud yn siŵr bod y person yn dal i allu derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arno ef neu hi. Mewn rhai achosion gallai hyn olygu na all ymgymryd â rhai rolau gwaith.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y canlynol:

- lleoliad ac oriau gweithredu'r fferyllfa y maent yn dewis gweithio ynddi - er enghraifft, fferyllfa ynysig mewn ardal wledig, neu fferyllfa yng nghanol y ddinas sy'n agor yn hwyr
- yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan y fferyllfa honno, yn cynnwys a ddarperir y rhain fel mater o drefn neu'n achlysurol
- y math o wasanaethau y mae pobl yn disgwyl i'r fferyllfa eu darparu yn y lleoliad neu'r amgylchedd hwnnw
- a fyddant yn gweithio ar eu pen eu hunain neu gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol eraill
- a oes fferyllfeydd lleol eraill a allai ddarparu'r gwasanaeth, a beth yw eu horiau agor, ac
- a yw eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau yn debygol o'u hatal rhag darparu'r ystod lawn o wasanaethau fferyllol a ddisgwylir yn eu swydd

#### b. Bod yn agored rhwng y gweithiwr fferyllol proffesiynol a'i gyflogwr

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fod yn agored gyda'u cyflogwr ynglŷn ag unrhyw ffyrdd y gallai eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau effeithio ar eu gallu i ddarparu rhai gwasanaethau fferyllol. Wrth weithio gyda'u cyflogwr, dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol:

- ddweud wrth eu cyflogwr, cyn gynted â phosibl, os yw eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau yn debygol o'u hatal rhag darparu rhai gwasanaethau fferyllol
- gosod disgwyliadau clir ynglŷn â'r gwasanaethau fferyllol y maent yn barod i, ac yn gallu, eu darparu
- deall disgwyliadau eu cyflogwr ynglŷn â'r gwasanaethau fferyllol y mae disgwyl i weithwyr proffesiynol eu darparu, a

- gwneud yn siŵr bod trefniadau digonol a phriodol ar waith, yn cynnwys dweud wrth aelodau eraill o staff, er mwyn gwneud yn siŵr y gall person dderbyn y gofal a'r cyngor sydd eu hangen arno

### c. Barn broffesiynol

Disgwylir i weithwyr fferyllol proffesiynol arddangos barn broffesiynol gadarn wrth ddelio â chais am wasanaeth a allai fod ddim yn unol â'u crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau eu hunain. Mae'r camau mwyaf priodol yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau unigol y person, ond dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol:

- wneud gofal y person yn bryder cyntaf iddynt a gweithredu er lles gorau'r person
- peidio â gwahaniaethu yn erbyn person ar sail crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau, neu ddiffyg crefydd neu gred eu hunain neu rai'r person
- deall anghenion y person
- meddwl am unrhyw rwystrau penodol y gallai'r person eu hwynebu - er enghraifft, anhawster mewn cyrchu'r gwasanaethau sydd eu hangen arno/arni
- ystyried a yw'n briodol i gynnwys neu atgyfeirio at weithiwr fferyllol proffesiynol neu ddarparwr gwasanaeth arall
- cydnabod mewn rhai achosion efallai na fydd atgyfeiriad yn ddewis cywir, nac yn ddigon, er mwyn sicrhau na chyfaddawdir gofal wedi'i ganoli ar y person, a
- gweithio gyda'r person i ddod i benderfyniad gwybodus ynglŷn â sut y gellir cyrchu'r gofal a'r gwasanaethau sydd eu hangen

### d. Ymddygiad proffesiynol


Disgwylir i weithwyr fferyllol proffesiynol ymddwyn yn broffesiynol bob amser, mewn modd nad sy'n gwthio eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau ar bobl eraill. Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol:

- beidio ag awgrymu na mynegi anghymeradwyaeth neu farn ynglŷn â pherson
- adnabod pan efallai y bydd person angen gofal neu gyngor ychwanegol – er enghraifft, person agored i niwed neu achos o ddiogelu – a gweithredu pan fo'n angenrheidiol, a
- chydabod a pharchu crefydd, gwerthoedd personol a chredoau - neu ddiffyg crefydd neu gred - person a sut y gallai'r rhain lywio dewisiadau'r person hwnnw

### e. Cyfathrebu effeithiol

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y ffordd y maent yn cyfathrebu gyda phobl sy'n derbyn gofal, a rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y person. Dylent:

- gyfathrebu'n broffesiynol a gyda pharch

- 
- addasu eu cyfathrebu i ddiwallu anghenion y person y maent yn cyfathrebu ag ef
  - ystyried pa mor briodol yw iaith eu corff, tŷn eu llais a'u geiriau
  - peidio â thybio bod y person yn gwybod am unrhyw opsiynau eraill, a gwneud yn siŵr bod gan y person yr ystod lawn o wybodaeth, fel nad yw'n rhwystro'r person rhag derbyn y gofal sydd ei angen arno
  - gwirio bod y person yn gwybod am unrhyw beryglon sylweddol sy'n gysylltiedig â'r driniaeth, neu ddewisiadau eraill i driniaeth, a
  - gwirio bod y person wedi deall y wybodaeth a roddwyd iddo, yn cynnwys unrhyw ddewisiadau sydd ganddo

#### **f. Parch ar gyfer preifatrwydd personol a chyfrinachedd**

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol barchu a chynnal preifatrwydd a chyfrinachedd pobl sy'n derbyn gofal. Wrth drin ceisiadau, dylent wneud yn siŵr:

- bod cyfleusterau neu drefniadau priodol ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod y person yn cael ei drin yn sensitif
- na wneir i'r person deimlo'n anghyfforddus neu na chodir embaras arno, a'u
- bod yn diogelu preifatrwydd ac urddas y person

### 4. Rhai cwestiynau i'w gofyn i'ch hun

Isod ceir rhai cwestiynau allweddol y dylai gweithwyr fferyllol cyffredinol ofyn i'w hunain yn y cyddestun hwn:

- A ydw i'n deall fy rhwymedigaethau cyfreithiol?
- A ydw i'n gwneud yn siŵr bod gennyf y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau perthnasol yn y gyfraith?
- A ydw i wedi bod yn agored gyda fy nghyflogwr ynglŷn â'r gwasanaethau yr wyf yn teimlo fy mod yn barod i, ac yn gallu, eu darparu?
- A yw'r trefniadau cywir ar waith er mwyn gwneud yn siŵr fod pobl yn dod yn gyntaf?
- Pa opsiynau sydd ar gael os na allaf ddarparu rhai gwasanaethau?
- Sut ydw i'n delio â'r sefyllfa mewn modd sensitif, heb godi embaras ar y person?
- Sut ydw i'n diogelu preifatrwydd ac urddas y person?
- Gan ystyried popeth, ai dyma'r lleoliad a'r amgylchedd gwaith cywir ar fy nghyfer i?

### 5. Cyflogwyr

Bwriedir i'r canllaw hwn gynorthwyo gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol. Fodd bynnag, mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau pwysig i greu a chynnal amgylchedd sydd wedi'i ganoli ar y person, a sicrhau bod gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol yn cael eu darparu. Mae'n bwysig bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn agored gyda'u cyflogwyr ynglŷn ag unrhyw ffyrdd y gallai eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau effeithio ar eu gallu i ddarparu rhai gwasanaethau fferyllol. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr i ystyried anghenion y bobl yn eu hardal a sut y gall y fferyllfa ddiwallu'r anghenion hynny orau. Bydd hefyd yn galluogi cyflogwyr i wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol gyda staff presennol a staff newydd er mwyn gwneud yn siŵr y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol drwy gydol oriau gweithredu'r fferyllfa.

Bydd angen i gyflogwyr hefyd gadw at y gyfraith cyflogaeth a chydraddoldeb berthnasol, a gwneud yn siŵr nad ydynt yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn gweithwyr fferyllol proffesiynol oherwydd eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau datganedig neu ganfyddedig.

## 6. Ffynonellau gwybodaeth eraill

Gallwch gael mwy o wybodaeth gan gyrff proffesiynol, darparwyr yswiriant indemniad a chyrff annibynnol eraill. Isod ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau posibl:

- **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
- **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr Alban**
- **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru**
- **Canllawiau crefydd neu gred ar gyfer cyflogwyr (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)**
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**
- **Cymdeithas Fferyllol Frenhinol**
- **Y Gymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol**
- **Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd**
- **Cymdeithas Technegwyr Fferyllol, DU**
- **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon**
- **Cyngor ar Bopeth**

## Sut y byddwn yn defnyddio eich ymatebion

Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywsom. Efallai y byddwn yn cyhoeddi rhannau o'ch ymateb yn yr adroddiad hwnnw neu mewn dogfennau eraill.

Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn preifat ni fyddwn yn defnyddio eich enw, a byddwn yn gwneud yn siŵr na fydd unrhyw ddyfyniadau a ddefnyddiwn yn ei gwneud hi'n bosibl i'ch adnabod chi'n uniongyrchol.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, efallai y byddwn yn cyhoeddi eich ymateb yn llawn oni bai eich bod yn dweud wrthym am beidio. Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam y credwch chi fod y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni yn gyfrinachol.

Allwn ni ddim gwarantu y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob amgylchiadau. Efallai y bydd angen i'r CFC ddatgelu gwybodaeth o dan y cyfreithiau sy'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer).

Os bydd eich ymateb wedi'i gwmpasu gan wadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ni fydd hyn ynddo'i hun yn rhwymol ar y CFC. Defnyddir unrhyw wybodaeth monitro amrywiaeth y byddwch yn ei rhoi i ni er mwyn adolygu effeithiolrwydd ein proses ymgynghori. Ni fydd yn rhan o ymateb a gyhoeddir

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

### Ymateb i'r ymgynghoriad ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau

Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam eich bod yn credu bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiadau.

- A fyddech cystal â thynnu fy enw oddi ar fy ymateb a gyhoeddir

Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb:

### Cwestiynau cefndir

Yn gyntaf, hoffem ofyn i chi am ychydig o wybodaeth gefndir. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddeall barn grwpiau, unigolion neu sefydliadau penodol a bydd yn ein galluogi i ymateb yn well i'r farn honno

#### A ydych chi'n ymateb:

- fel unigolyn – ewch i adran A
- ar ran sefydliad – ewch i adran B

### Adran A – Ymateb fel unigolyn

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

cyfeiriad:

e-bost:

**Lle ydych chi'n byw?**

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- arall (rhowch fanylion)

**A ydych chi'n ymateb fel:**

- aelod o'r cyhoedd
- gweithiwr fferyllol proffesiynol neu berchennog fferyllfa – ewch i adran A1
- hyfforddai cyn-gofrestru
- myfyriwr
- arall (rhowch fanylion)

**A ydych chi'n:**

- fferylllydd
- technegydd fferyllol
- perchennog fferyllfa

**Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau'r maes yr ydych yn gweithio'n bennaf ynddo:**

- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa ysbyty
- sefydliad gofal sylfaenol
- addysg a hyfforddiant fferylliaeth
- y diwydiant fferyllol
- arall (rhowch fanylion)

### Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol



## Adran B – Ymateb ar ran sefydliad

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

teitl eich swydd:

sefydliad:

cyfeiriad:

e-bost:

enw cyswllt ar gyfer ymholiadau:

### A yw eich sefydliad yn:

- sefydliad fferyllol
- sefydliad sydd ddim yn un fferyllol

### Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau eich sefydliad:

- sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferyllol
- fferyllfa annibynnol (1-5 fferyllfa)
- fferyllfa luosog (6 neu ragor o fferyllfeydd)
- sefydliad neu grŵp GIG
- sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant
- arall (rhowch fanylion)

Rhowch ddisgrifiad byr o'r hyn mae eich sefydliad yn ei wneud a'i ddiddordeb yn yr ymgynghoriad penodol hwn:

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gennym ddi-ddordeb penodol yn eich barn ar y pwyntiau canlynol. Fodd bynnag, croesawn eich sylwadau ar unrhyw faterion yr ydych am eu codi ynglŷn â'r newid a gynigir i'r enghraifft o dan safon 1 ynglŷn â chrefydd, gwerthoedd personol a chredoau, a'r canllaw diwygiedig a gynigir.

### Safonau

Dywed safon 1:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal wedi'i ganoli ar y person

#### Cymhwysu'r safon

Mae pob person yn unigolyn gyda'i werthoedd, anghenion a'i bryderon ei hun. Darperir gofal wedi'i ganoli ar y person pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn deall beth sy'n bwysig i'r unigolyn ac yna addasu'r gofal i ddiwallu ei anghenion - gan wneud gofal y person yn flaenoriaeth gyntaf iddynt. Gall pob gweithiwr fferyllol proffesiynol fod yn berson ganolog, boed eu bod yn darparu gofal yn uniongyrchol ai peidio, drwy feddwl am yr effaith y mae eu penderfyniadau yn ei gael ar bobl. Mae nifer o ffyrdd i fodloni'r safon hwn, ac isod ceir enghreifftiau o'r agweddau a'r ymddygiadau a ddisgwylir.

Cynigwn y dylai'r geiriad ar gyfer yr enghreifftiau o dan safon 1 - ynglŷn â chrefydd, gwerthoedd personol a chredoau - fod yn dweud:

Bydd pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fydd gweithwyr fferyllol proffesiynol y:

- Cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain ond ddim yn eu gwthio ar bobl eraill [enghraifft heb ei newid]
- Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau na chyfaddawdir gofal wedi'i ganoli ar y person oherwydd gwerthoedd personol a chredoau [enghraifft wedi'i diwygio]

#### 1. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig?

Ydw  Nac ydw

#### 1a. Eglurwch eich rhesymau am hyn

## Canllaw

Mae'r canllaw diwygiedig yn rhoi mwy o wybodaeth am yr ymddygiadau a ddisgwylir gan weithwyr fferyllol proffesiynol wrth gymhwyso'r safonau.

2. **A yw'r canllaw diwygiedig yn cwmpasu'n ddigonol yr ystod eang o sefyllfaoedd y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol fod ynddynt?**

Ydy  Nac ydy

3. **A oes unrhyw beth arall, na chwmpesir yn y canllaw, y byddech chi'n ei weld yn ddefnyddiol? Rhowch fanylion.**

## Effaith

Rydym yn cydnabod bod crefydd, gwerthoedd personol a chredoau pobl yn debygol o effeithio ar eu hymddygiadau, eu hagweddau a'u penderfyniadau. Rydym eisiau gwybod sut y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r enghraifft o dan safon 1 a'n canllaw diwygiedig effeithio ar fyfyrwyr, rhai dan hyfforddiant cyn-cofrestru, gweithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

4. **A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol?**

Bydd  Na fydd

5. **A fydd yr effaith honno yn:**

- Cadarnhaol yn bennaf  
 Rhannol gadarnhaol  
 Cadarnhaol a negyddol  
 Rhannol negyddol  
 Negyddol yn bennaf

- 5a. **Esboniwch a rhowch enghreifftiau.**

**Effaith, parhad...**

**6. A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar gyflogwyr?**

Bydd  Na fydd

**7. A fydd yr effaith honno yn:**

- Cadarnhaol yn bennaf
- Rhannol gadarnhaol
- Cadarnhaol a negyddol
- Rhannol negyddol
- Negyddol yn bennaf

**7a. Esboniwch a rhowch enghreifftiau.**

**8. A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?**

Bydd  Na fydd

**9. A fydd yr effaith honno yn:**

- Cadarnhaol yn bennaf
- Rhannol gadarnhaol
- Cadarnhaol a negyddol
- Rhannol negyddol
- Negyddol yn bennaf

**9a. Esboniwch a rhowch enghreifftiau.**

**10. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?**

## Monitro cydraddoldeb

Yn y CFFC rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol, a gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni fel y gallwn wirio bod hyn yn digwydd.

Rydym hefyd eisiau deall sut y mae materion a godir yn yr ymgynghoriad penodol hwn yn effeithio ar wahanol grwpiau. Byddwn yn defnyddio'r data hwn fel rhan o'n dadansoddiad o ymatebion. Nid oes raid i chi ateb y cwestiynau hyn os byddai'n well gennych beidio.

### Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- Gwryw
- Benyw
- Arall

### Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Ticiwch un blwch

- Heterorywiol/syth
- Menyw hoyw /lesbiad
- Dyn hoyw

- Deurywiol
- Arall
- Gwell gennyf beidio dweud

### A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol bob dydd". Ticiwch un blwch.

- Ydw
- Nac Ydw
- Gwell gennyf beidio dweud

### Beth yw eich grŵp oedran?

Ticiwch un blwch

- 16 – 24 oed
- 25 – 34 oed
- 35 – 44 oed
- 45 – 54 oed
- 55 – 64 oed
- 65 + oed

### Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch y blwch priodol i ddynodi eich cefndir diwylliannol. Ticiwch un blwch.

#### Gwyn

- Prydeinig

## Rhagfyr 2016

- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Cefndir gwyn arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### Du neu Ddu Prydeinig

- Du Caribiaidd
- Du Affricanaidd
- Cefndir du arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### Cymysg

- Gwyn a Du Caribiaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Du ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistani
- Bangladeshi
- Asiaidd arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### Tsineiaidd neu Tsineiaidd Prydeinig

- Tsineiaidd neu Tsineiaidd Prydeinig
- Grŵp ethnig arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### Arabaidd

- Arabaidd

### Arall

Gwell gennyf beidio dweud

- Unrhyw gefndir ethnig arall (rhowch fwy o wybodaeth yn y blwch isod)

## Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Bwdhydd
- Cristion
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Sîc
- Dim
- Arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)
- Gwell gennyf beidio dweud

## Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu

1. A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig i eiriad yr enghreifftiau o dan safon 1 – ynglŷn â chrefydd, gwerthoedd personol a chredoau?

Ydw / Nac ydw

- 1a. Eglurwch eich rhesymau am hyn.
2. A yw'r canllaw diwygiedig yn cwmpasu'n ddigonol yr ystod eang o sefyllfaoedd y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol fod ynddynt?
3. A oes unrhyw beth arall, na chwmpesir yn y canllaw, y byddech chi'n ei weld yn ddefnyddiol? Rhowch fanylion.
4. A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol?

Ydy / Nac ydy

5. A fydd yr effaith honno yn:

Cadarnhaol yn bennaf  
Rhannol gadarnhaol  
Cadarnhaol a negyddol  
Rhannol negyddol  
Negyddol yn bennaf

- 5a. Esboniwch a rhowch enghreifftiau.
6. A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar gyflogwyr?

Bydd / Na fydd

7. A fydd yr effaith honno yn:

Cadarnhaol yn bennaf  
Rhannol gadarnhaol  
Cadarnhaol a negyddol  
Rhannol negyddol  
Negyddol yn bennaf

- 7a. Esboniwch a rhowch enghreifftiau.

8. A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?

Bydd / Na fydd

9. A fydd yr effaith honno yn:

Cadarnhaol yn bennaf  
Rhannol gadarnhaol  
Cadarnhaol a negyddol  
Rhannol negyddol  
Negyddol yn bennaf

- 9a. Esboniwch a rhowch enghreifftiau.

10. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?



# Cyngor Fferyllol Cyffredinol

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**  
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ  
F 020 3713 8000  
E [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)  
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)  
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)  
[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)